# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 (PEN-SARN I BONT ABRAHAM, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd ac er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A48, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Cross Hands a Chylchfan Pont Abraham yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

(1) Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A48 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

(2) Gosod terfyn cyflymder o naill ai 50 mya, 40 mya neu 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A48 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond yn ystod gwaith confoi y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym am 00:01 o'r gloch ar 12 Mehefin 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol, pan fydd hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, tan 23:59 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2027, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd y Gorchymyn yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

# THE A48 TRUNK ROAD (PENSARN TO PONT ABRAHAM, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION AND RESTRICTION) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to safeguard road users and to undertake works on or near the A48 trunk road from Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

(1) Prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A48 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described therein.

(2) Impose either a 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A48 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

The 10 mph speed limit is only expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order will come into force at 00:01 hours on 12 June 2026. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate intermittently, when indicated by traffic signs, until 23:59 hours on 1 December 2027, or until the temporary traffic signs are permanently removed. The Order will remain valid for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Gwahardd cerbydau dros dro

1. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Cross Hands hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

Y llwybr arall:

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands fydd ar hyd yr A476 tua'r gogledd i'w chyffordd â'r A483, yna'r A483 tua'r gogledd drwy Landeilo i'w chyffordd â'r A40 wrth Gylchfan Llandeilo, parhau ar yr A40 tua'r gorllewin gan ddilyn arwyddion am Gaerfyrddin i Gylchfan Glangwili, yna cymryd yr allanfa gyntaf ag arwydd yr A48 Caerfyrddin a dilyn yr A40 i Gylchfan Pen-sarn. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn.

2. Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pont Abraham hyd at ei chyffordd â Chylchfan Cross Hands.

Y llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Pont Abraham fydd ar hyd yr A483 tua'r gogledd i Ffair-fach, yna'r A476 tua'r de i Gylchfan Cross Hands i ymuno â'r A48. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

## SCHEDULE 1

### Temporary prohibition of vehicles

1. The length of the A48 trunk road that extends from its junction with Cross Hands Roundabout to its junction with Pensarn Roundabout.

Alternative route:

The alternative route for westbound vehicles from Cross Hands Roundabout will be via the A476 northbound to its junction with the A483, then the A483 northbound through Llandeilo to its junction with the A40 at Llandeilo Roundabout, continue on the A40 westbound following signals for Carmarthen to Glangwilli Roundabout, then take the first exit signposted A48 Carmarthen and follow the A40 to Pensarn Roundabout. Vice versa for eastbound vehicles from Pensarn Roundabout.

2. The length of the A48 trunk road that extends from its junction with Pont Abraham Roundabout to its junction with Cross Hands Roundabout.

Alternative route

The alternative route for westbound vehicles from Pont Abraham Roundabout will be via the A483 northbound to Ffairfach, then the A476 southbound to Cross Hands Roundabout to then join the A48. Vice versa for eastbound vehicles from Cross Hands Roundabout.

## ATODLEN 2

### Terfyn cyflymder 50 mya, 40 mya neu 10 mya a dim goddiweddyd dros dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 20 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 450 o fetrau i'r

## SCHEDULE 2

### Temporary 50mph, 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking

1. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from its junction with Pensarn Roundabout to a point 20 metres east of Pensarn Roundabout.

2. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 20 metres east of Pensarn Roundabout to a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout.

3. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout to a point 130 metres east of Cross Hands Roundabout.

4. The length of the A48 trunk road eastbound carriageway that extends from a point 130 metres east of Cross Hands Roundabout to a point 450

gorllewin o Gylchfan Pont Abraham.

5. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o Bont Abraham hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pont Abraham.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o'i mynedfa i Gylchfan Pont Abraham, gan barhau o amgylch y gylchfan ac yn cynnwys y darn cyfan o'r gylchfan hyd at bwynt 115 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 115 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands.

8. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands.

9. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Cross Hands hyd at bwynt 425 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn.

10. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 425 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd â Chylchfan Pen-sarn.

metres west of Pont Abraham Roundabout.

5. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 450 metres west of Pont Abraham to its junction with Pont Abraham Roundabout.

6. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from its entry onto the Pont Abraham Roundabout, continuing around and including the full length of the roundabout to a point 115 metres west of the roundabout.

7. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 115 metres west of Pont Abraham Roundabout to a point 150 metres east of the Cross Hands Roundabout.

8. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 150 metres east of Cross Hands Roundabout to a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout.

9. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 170 metres west of Cross Hands Roundabout to a point 425 metres east of Pensarn Roundabout.

10. The length of the A48 trunk road westbound carriageway that extends from a point 425 metres east of Pensarn Roundabout to its junction with Pensarn Roundabout.